Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth 2017

Yn dilyn wythnos o law trwm trwy lwc trodd y tywydd yn fwy ffafriol i Eisteddfod Gadeiriol Cwmystwyth a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 16eg Medi. Y beirniaid eleni oedd Geraint a Sue Hughes gŵr a gwraig o Beniel, Caerfyrddin, Sue yn beirniadu'r canu a Geraint y llefaru. Rocet Arwel Jones, Aberystwyth oedd yn beirniadu'r ochr lenyddol. Ef enillodd y gadair yng Nghwmystwyth ddwy flynedd yn ôl a llynedd bu'n cyfarch y bard buddugol. Cyn brif-athrawes ysgol Llanafan, Dilys Rees-Jones, Tregaron fu'n beirniadu'r cystadlaethau cyfyngedig. Lona Phillips o Abermagwr oedd yn cyfeilio. Yn arwain yn ddeheuig roedd Elen Lewis, Llanfihangel-y-Creuddyn a'r Parch Ingrid Rose, Pont-rhyd-y-groes. Yn anffodus methodd Aled Evans, Trisant fod yn bresennol oherwydd anhwylder. Anfonwn ein dymuniadau gorau ato.

Llywydd y dydd oedd Brenda Evans, Llangadog, merch a fagwyd yng Nghwmystwyth ac sydd yn para i gadw mewn cysylltiad agos a'r Cwm. Cyflwynwyd Brenda gan Edgan Morgan, un arall a'i wreiddiau'n ddwfn ar Rhos Peiran. Cafwyd ychydig o hanes eisteddfodau ei phlentyndod gan Brenda yn dwyn atgofion am y cwpanau a'r medalau yn cael eu harddangos yn ffenest y siop am gyfnod cyn yr eisteddfod. Diolch iddi am ei rhoddodd hael i'r eisteddfod.

Roedd seremoni'r cadeirio yn nwylo medrus Elen Lewis. Testun cerdd y gadair oedd "Lliw/Lliwiau" ac ymgeisiodd tri ar ddeg amdani. Y bardd buddugol oedd Dr Islwyn Edwards, Aberystwyth ond o Ffair Rhos yn wreiddiol. Cyflwynwyd y gadair iddo gan Mair Jenkins, Ffair Rhos. Richie, ei gŵr oedd wedi gwneud y gadair dderw hardd gan ddilyn patrwm cadeiriau eisteddfodol y gorffennol ond yn anffodus oherwydd anhwylder ni fedru fynychu'r eisteddfod. Roedd Islwyn yn falch o'i lwyddiant gan fod y gadair wedi ei gwneud gan un â chysylltiad teuluol ac yn dod o'i fro enedigol. Derbyniodd hefyd £100 gan deulu Pentre er cof am Gwyn. Dafydd Morris-Jones, Ysbyty Cynfyn seiniodd y corn gwlad a chyfarchwyd Islwyn gan Selwyn Jones o'r Bont. Cyrchwyd y bardd gan Lynne Davies a Gladys Morgan a chanwyd Cân y Cadeirio gan Guto Lewis o Lanon, bachgen ifanc sydd wedi ennill amryw o wobrau yn eisteddfod y Cwm.

Bu gwragedd Caffi'r Cwm yn y festri yn brysur drwy'r amser a chafodd y gynulleidfa gyfle i gael seibiant a mwynhau clonc gyda ffrindiau. Bu'r dynion hwythau'n brysur hefyd yn stiwardio.

Roedd naws gartrefol i'r eisteddfod a chafwyd cystadlu o safon uchel drwy gydol y dydd.

Canlyniadau

Canu:

Unawd Cyfyngedig Cyfnod Sylfaen 1af Magi Jones, Syr John Rhys 2il Lili Macy, Mynach 3ydd Malen Davies, Mynach. Cyfyngedig Bl.3-6 1af Swyn Davies, Syr John Rhys 2il Gwenan Jones, Syr John Rhys 3ydd Peni Macy, Mynach.

Unawd agored Cyfnod Sylfaen 1af Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 2il Magi Jones, Ponterwyd

Unawd agored Bl.3 a 4 1af Gwenan Jones, Ponterwyd, 2il Ifan Williams, Tregaron

Unawd agored Bl 5 a 6 1af Elin Williams, Tregaron 2il Ioan Mabbutt, Aberystwyth

Canu Emyn dan 12 oed 1af Ioan Mabbutt, Aberystwyth 2il Elin Williams, Tregaron

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd oed cynradd 1af Gwenan Jones, Ponterwyd 2il Elenor Nicholas, Aberystwyth

Unawd dan 16 oed 1af Tomos Ifan Meredith, Llanbed 2il Siwan Aur George, Lledrod

Unawd dan 21ain 1af Guto Lewis, Llanon 2il Siwan Phillips, Abermagwr

Unawd ar unrhyw offeryn cerdd – oed uwchradd 1af Soffia Nicholas, Aberystwyth 2il Steffan Nicholas, Aberystwyth

Canu Emyn dan 60 oed 1af Efan Williams, Lledrod 2il Heledd Bessant, Pennal

Alaw Werin Agored 1af Harri Huws, Dinas Mawddwy 2il Heledd Bessant, Pennal

Canu Emyn dros 60 oed 1af Tecwyn Jones, Machynlleth 2il Hywel Annwyl, Llanbryn Mair

Cân Bop/ Cân allan o Sioe Gerdd 1af Heledd Bessant, Pennal 2il Lyndsey Cameron, Tregaron

Unawd Gymraeg 1af John Davies, Llandybie 2il Tecwyn Jones, Machynlleth

Her Unawd 1af Crwys Evans, Pont-rhyd-y-groes 2il Efan Williams, Lledrod

Parti Canu 1af Merched Bro'r Mwyn 2il Ysgol Syr John Rhys

Sgen Ti Dalent dan 16 oed 1af Soffia ac Elenor Nicholas, Aberystwyth 2il Elin, Ifan a Mari Williams, Tregaron
Sgen Ti Dalent dros 16 oed 1af Meibion y Mynydd 2il Merched Bro'r Mwyn
Côr 1af Merched Bro'r Mwyn (£150 rhoddedig gan y teulu er cof am Ronnie Nanty) 2il Meibion y Mynydd
Llefaru
Cyfnod Sylfaen Cyfyngedig 1af Ifan Hedd Lewis ,Mynach 2il Lili Macy, Mynach 3ydd Ceri Macy, Mynach ac Alaw Davies, Syr John Rhys
Blwyddyn 3-6 Cyfyngedig 1af Charlie Hughes, Syr John Rhys 2il Swyn Davies, Syr John Rhys 3ydd Peni Macy, Mynach
Cyfnod Sylfaen Agored 1af Meia Evans, Llanfihangel-y-Creuddyn 2il Lili Macy, Pontarfynach
Agored Bl 3 a 4 1af Mari Williams, Tregaron 2il Ifan Williams, Tregaron
Agored Bl 5 a 6 1af Ioan Mabbutt, Aberystwyth 2il Elin Williams, Tregaron
Dan 16 oed 1af Siwan Aur George, Lledrod 2il Tomos Ifan Meredith, Llanbed
Dan 21 oed 1af Nest Jenkins, Lledrod
Dysgwyr 1af Rachel Seabrook, Pontarfynach 2il Sandy Neville, Cwmystwyth
Adrodd Digri 1af Meleri Morgan, Bwlchyllan, 2il Mair Jones, Tregaron
Darllen darn o'r Ysgrythur 1af Nest Jenkins, Lledrod 2il Meleri Morgan, Bwlchyllan
Parti Llefaru Dysgwyr 1af Parti Brython
Parti Llefaru Agored 1af Merched y Wawr Mynach a'r Cylch
Brawddeg 1af Mary B Morgan, Llanrhystud 2il Iwan Thomas, Ciliau Aeron
Limrig 1af Alun Jenkins, Pontarfynach 2il Elenor Nicholas, Aberystwyth
Cystadlaethau lleol
Arlunio Cyfnod Sylfaen 1af Sara Erin Jenkins, Mynach 2il Tomos Hopkins, Mynach
Arlunio Bl. 3 a 4 1af Hedd James-Morris, Syr John Rhys 2il Gwenan Jones, Syr John Rhys
Arlunio Bl. 5 a 6 1af Cynan James-Morris, Syr John Rhys 2il Isabella Braddick, Mynach
Llun Camera 1af Sara Erin Jenkins, Pontarfynach 2il Aled Evans, Trisant a Beca James, Pontarfynach
Llawysgrifen 1af ac 2il Jane Hopkins, Pontarfynach
Dymuna'r pwyllgor longyfarch yr holl gystadleuwyr a diolch o galon i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod.